



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2012

Gwybodaeth Ystadegol

Gall Adroddiad yr Arholwyr gyfeirio'n gyffredinol at ganlyniadau ystadegol. Caiff gwybodaeth ystadegol am berfformiadau ymgeiswyr ym mhob cydran arholiad (asesiad mewnol neu allanol) ei darparu pan gyhoeddir y canlyniadau.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (sy'n cael ei gyhoeddi yn ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol yr holl arholiadau a weinyddir gan CBAC.

CYMRAEG AIL IAITH

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

2012

Prif Arholwyr: Trefor Lewis, B.A., M. Phil
Dewi Lewis, B.A.

Uned 1

Eleni, am y tro cyntaf roedd y pedair Uned ar gael a hynny wrth gwrs yn caniatáu i ymgeiswyr ennill cymhwyster Cwrs Byr a Chwrs Llawn.

Mae Uned 1 ac Uned 4 yn cael eu marcio ar-lein ac mae hyn yn creu peth trafferth i rai ymgeiswyr.

Dyma rai canllawiau y dylai ysgolion eu hystyried:

1. Dylai ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion mewn inc neu feiro du. Mae hyn yn sicrhau y bydd y copi o'r sganiwr yn glir.
2. Rhaid cadw'r ymatebion o fewn y gofod a ddarperir ar gyfer pob cwestiwn, oherwydd nid yw'r sganiwr yn copïo tu allan i'r gofod hwn.
3. Os oes angen cywiro rhywbeth dylid rhoi llinell drwyddo ac ail ysgrifennu'r ymateb naill ai o fewn y gofod ar gyfer ysgrifennu neu mewn lyfryn ar wahân.
4. Dylai llawysgrifen ymgeiswyr fod yn daclus a chlir.
5. Os nad oes digon o le i ysgrifennu ymatebion dylid parhau mewn llyfryn ar wahân gyda rhif y cwestiwn yn glir arno.

Uned 1 – Darllen ac Ysgrifennu

Roedd yr uned hon ar gael y llynedd ac felly roedd llawer o athrawon ac ymgeiswyr wedi elwa o'r profiadau a'r adroddiad a gyflwynwyd yn 2011. Papur arholiad 1 awr ydy hwn a gall ymgeiswyr ddewis naill ai'r Haen Sylfaenol neu'r Haen Uwch. Mae cynnwys y papur wedi ei sylfaenu ar gyd-destunau A. Ar y cyfan cafwyd ymatebion digon llwyddiannus, a llawer o'r ymgeiswyr yn osgoi camgymeriadau amlwg a wnaethpwyd y llynedd.

Cwestiwn 1: Darllen – 15 marc (12 marc darllen, 3 marc ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Cwestiwn darllen yw hwn ond hefyd gwobrwyir ymgeiswyr mewn un rhan benodol am gywirdeb wrth ymateb yn ysgrifenedig.

Y dasg oedd darllen taflen wybodaeth a oedd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol, gyffredinol am 'Trip Clwb Cymraeg Llanfynydd' ac yna cwblhau dau weithgaredd penodol.

- (i) Y dasg gyntaf, am 3 marc, oedd ticio 3 llun i ddangos dealltwriaeth o 3 gweithgaredd a oedd yn cael eu cynnig yn y Ganolfan Antur. Ar y cyfan llwyddodd canran uchel iawn i wneud hyn yn llwyddiannus. Diffyg canolbwyntio oedd y rheswm am gamgymeriadau fel arfer ac roedd nifer fach wedi ticio mwy na thri llun ac o'r herwydd yn colli marciau.

- (ii) Roedd yr ail dasg yn fwy uchelgeisiol, sef ysgrifennu paragraff sy'n cynnwys gwybodaeth benodol o'r daflen a ddarllenwyd. Dyfarnwyd 9 marc am gyflwyno 9 ffaith benodol yn gyfathrebol gywir ac yna 3 marc am gywirdeb gramadegol yn y paragraff. Er mwyn ennill marciau am y cynnwys roedd rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir a diamwys.

e.e. dyddiad y trip. Mai 19 = 1 marc; dydd Sadwrn yn unig = 0
Beth sy eisiau = dillad glaw = 1 marc; dillad yn unig = 0

Dyfarnwyd hyd at 3 marc am gyfathrebu llwyddiannus ac ymdrech dda i ddefnyddio brawddegau yn gywir.

Dyfarnwyd y marciau fel a ganlyn:

1 – 3 ateb cywir – 1 marc
4 – 6 ateb cywir – 2 marc
7 – 9 ateb cywir – 3 marc

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Sicrhau bod y wybodaeth yn glir a diamwys. (gweler uchod)
- (b) Sicrhau eu bod wedi cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gyd.
- (c) Wedi defnyddio brawddegau llawn gan dalu sylw i gystrawen e.e. Mae trip y Clwb Cymraeg yn mynd i Ganolfan Penllyn ar Fai 19.
- (ch) Wedi astudio'r lluniau yn ofalus a thicio 3 llun yn unig.

Cwestiwn 2: Ysgrifennu – 10 marc (5 cynnwys, 5 mynegiant)

Y dasg yw ysgrifennu ymatebion i ddau destun sylfaenol o Gyd-destun A, sef Chwaraeon a Sêr o Gymru. Dyfarnwyd 5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy am y ddau destun a 5 marc arall am ddefnyddio 5 cystrawen wahanol yn gywir yn yr ymateb.

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio 5 cystrawen wahanol er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus.

Chwaraeon rydych chi'n hoffi e.e. rydw i'n hoffi, dw i'n mwynhau.

Chwaraeon dydych chi ddim yn hoffi e.e. dydw i ddim yn hoffi, dw i ddim yn mwynhau.

Pam? e.e. achos mae'n ddiddorol, achos mae pêl-droed yn sbwriel.

Eich hoff seren o Gymru e.e. fy hoff seren ydy ..., Aaron Ramsey ydy fy hoff seren.

Disgrifiad. Mae e'n ifanc / olygus / siarad Cymraeg.

Pam? Achos mae e'n chwarae pêl i Arsenal.

Rhai cystrawennau a gafwyd eleni:

Dw i'n ..., rydw i'n ...

dw i ddim yn, dydw i ddim yn...

fy hoff ... ydy..., ydy fy hoff...

mae o'n/e'n, mae hi'n, maen nhw'n

dydy o/e ddim yn, dydy hi ddim yn ...

mae gen i, mae ... gen i, Mae gyda fi...

mae'n well gen i / gyda fi

Hefyd cafwyd cystrawennau cywir yn y Gorffennol cryno e.e. es i, chwaraeais i.

Rhaid i'r cystrawennau gael eu defnyddio'n gywir er mwyn ennill marciau iaith

e.e. dw i hoffi = 0, dydw i ddim hoffi = 0. Fi'n hoffi = 0, fy hoff seren George North = 0.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Sicrhau eu bod yn gallu defnyddio cystrawennau creiddiol yn gywir. (gweler uchod)
- (b) Sicrhau eu bod yn cynnwys o leiaf 5 ffaith.
- (c) Sicrhau eu bod yn ymateb i bob rhan o fewn y dasg.

Cwestiwn 3. Darllen 30 marc. (24 marc am ddealltwriaeth o'r cynnwys ac ymateb yn gryno yn y proffil, 6 marc am ddealltwriaeth ac ymateb ar ffurf brawddegau yn y 3ydd person).

Mae'r dasg hon ar gyfer yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch ac roedd digon o dystiolaeth bod ymgeiswyr y ddwy haen wedi mwynhau darllen y cyfweiliad gyda George North ac wedi deall llawer iawn o'r cynnwys.

Yn aml teimlai'r arholwyr mai diffyg darllen yn fanwl a chanolbwyntio oedd y prif reswm am gamgymeriadau.

e.e. Siarad Cymraeg. Gyda phwy? Mae'n amlwg fod Pwy? yn gofyn am enw person / pobl – ond cafwyd atebion megis 'yn Llangefni'.

Sgorio sawl cais – mae'n amlwg fod eisiau rhif yma.

Yr ail dasg oedd ysgrifennu dwy frawddeg yn y 3ydd person yn rhoi dwy ffaith am beth roedd George North yn ei ddweud yn y cyfweiliad am *Gwpan y Byd*.

Dyfarnwyd 6 marc am yr adran hon sy'n asesu ymateb ysgrifenedig i ran benodol o'r darn darllen. Felly 3 marc yr un am ddwy frawddeg gywir yn y 3ydd person. (3 x 2 = 6 marc). Roedd rhaid i'r ffeithiau fod yn gywir cyn y gellid dyfarnu marc o gwbl.

e.e. brawddegau oedd yn cael 3 marc.

Mae o'n cofio sgorio dau gais yn erbyn Namibia.

Mae e'n meddwl am y gêm yn erbyn Ffrainc a cholli 9 i 8.

Mae e'n hoffi Seland Newydd.

Hoffai o fynd i Seland Newydd eto.

Mae'r tîm yn hapus iawn gyda'r perfformiad.

Mae'r brawddegau uchod wedi eu codi o'r darn a'r cyfan sy'n rhaid i'r ymgeiswyr wneud yw newid y person.

Dyfarnwyd 2 marc am frawddeg lle ceid ymdrech deg i ddefnyddio'r 3ydd person ond a oedd yn cynnwys camgymeriad bach.

Brawddegau 2 farc:

Mae o cofio sgorio dau gais.
Mae e'n meddwl y gêm yn erbyn Ffrainc.
Mae hoffi Seland Newydd.
Roedd tîm yn hapus efo perfformiad.

Ni ddyfarnwyd marciau am frawddegau:

- (a) Lle nad oedd ymdrech i ddefnyddio'r 3ydd person.
- (b) Lle nad oedd y wybodaeth yn y frawddeg am sylwadau George North am Gwpan y Byd e.e. rydw i'n cofio sgorio dau gais yn erbyn Namibia.
Dechreuodd chwarae rygbi pan oedd yn un ar ddeg oed.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Ystyried yn fanwl pa wybodaeth sydd ei angen i ymateb yn gywir yn y proffil e.e. pwy? – yn gofyn am enw neu bobl. Oed? – yn gofyn am rif. Sawl cais? – yn gofyn am rif. Ble? – yn gofyn am le a.y.y.b.
- (b) Sicrhau eu bod yn ateb pob adran ac isadran yn y proffil e.e. hoff ffilmiau – mae angen nodi dwy ffaith.

I godi safonau yn y rhan hon:

- (a) Mae angen hyfforddi'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Gall y dasg fod yn syml iawn ar ôl deall cynnwys e.e. weithiau does ond angen newid 'dw i' i 'mae e/hi'.
- (b) Rhaid i'r ymgeiswyr gofio bod y rhan hon yn asesu dealltwriaeth yn ogystal â'r gallu i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Felly rhaid i gynnwys y brawddegau fod yn berthnasol h.y. Cwpan y Byd yn y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 4: Ysgrifennu – 20 marc (10 cynnwys 10 mynegiant)

Y dasg oedd ysgrifennu darn i gyd-fynd â chyfres o luniau am ddathlu pen-blwydd dros y penwythnos. Roedd y cyd-destun yn gyfarwydd i ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol ac Uwch ac yn ymwneud â phethau megis bowlïo deg, teithio, siopa, mynd i ddisgo a gwneud gwaith cartref. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ysgrifennu o leiaf 3 brawddeg am bob llun.

Cynnwys 10 marc

Dyfarnwyd 2 farc cynnwys am bob llun sef 1 marc yr un am y ddwy frawddeg gyfathrebol destunol orau oedd yn adrodd y stori yn y llun.

Mynegiant 10 marc

Gwobrwyir:

- (a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrion.
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm.
- (c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
- (ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol ar gyfer naratif.
- (d) y gallu i ysgrifennu deialog yn ddiddorol a chywir.
- (dd) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrion llwyddiannus.

Cafwyd gan y goreuon:

Gyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa a deialog dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf ynghyd ag ysgrifennu diddorol gydag elfen gref / gref iawn o gywirdeb.

Roedd y canolig (tua 5 marc) yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid oedd y camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Roedd ganddynt eirfa ddigonol i gyflawni'r dasg ar lefel sylfaenol. Roeddent yn gallu dweud yr hanes yn llwyddiannus ond heb ddangos llawer o uchelgais.

Gweiniaid

Llwyddodd canran dda o'r rhain i ennill marciau am gynnwys ond fel arfer roedd eu marc mynegiant yn isel iawn. Gwendidau cystrawennol oedd yn eu llesteirio fwy na dim oherwydd roedd hi'n amlwg fod ganddynt eirfa weddol dda am bynciau fel teithio, disgo, siopa a gwaith cartref.

Ni chafwyd ymdrech o gwbl gan ganran fach o'r gweiniaid ac mae hyn yn drueni oherwydd mae'r cyd destunau yn siŵr o fod yn gyfarwydd iddynt.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Ymgyfarwyddo ag ysgrifennu stori am gyfres o luniau sy'n adrodd stori.
- (b) Gwan ganolbwyntio ar ysgrifennu brawddegau creiddiol syml ar bob llun a chreu deialog syml.
- (c) Canolig ganolbwyntio ar wella cytundeb terfyniad y ferf â'r goddrych.
- (ch) Sicrhau eu bod yn cadw digon o amser i wneud cyfiawnhad â'r cwestiwn hwn.

Cwestiwn 3: Uwch – Darllen – 30 marc (24 Darllen, 6 ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Darllen dau ddarn allan o gylchgrawn pobl ifanc oedd y dasg a osodwyd. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth trwy gwblhau gridiau a oedd yn gofyn am wybodaeth benodol am Wyliau, Gwaith rhan-amser a Siarad Cymraeg. Roedd y ddau berson ifanc, Iwan a Rhiannon, yn dweud beth yr oeddent yn hoffi a ddim yn hoffi am y testunau ac yn rhoi rhesymau am hynny.

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn dewis a dethol y wybodaeth berthnasol er mwyn cwblhau'r tasgau yn llwyddiannus.

Dangosodd y goreuon ddealltwriaeth dda o'r testunau gan ddethol y rhesymau cywir am hoffter a diffyg hoffter. Ar y llaw arall, roedd llawer o'r canolig yn tueddu i gopiö brawddegau gan obeithio cynnwys yr ateb cywir yn rhywle.

Mae'r gofod sydd ar gael ar gyfer yr ateb yn dangos mai atebion byr sy'n ddisgwyliedig.

e.e. Gwyliau Iwan. (mae atebion derbyniol eraill hefyd)

Hoffi nawr. – gwyliau antur / efo'r Clwb Ieuencid.

Pam? hoffi dringo, canwio, cysgu mewn pabell.

Ddim yn hoffi nawr. – (gwyliau gyda'r) ysgol.

Pam? athrawon yn llym / ddim yn gallu ymlacio.

Ymateb i ddarllen – 6 marc

Roedd cyfle yma i ddewis y pwynt gorau a'r pwynt doedden nhw ddim yn hoffi yn y ddau ddarn a rhoi eu rhesymau personol am wneud hynny.

Mae hi'n bwysig bod yr ymgeisydd yn dweud yn glir at beth maen nhw'n cyfeirio ato a chynnwys rheswm personol da, sydd wedi ei fynegi'n glir a chywir, i gael y 3 marc. Rhoddwyd 2 farc am ateb oedd yn cynnwys camgymeriad bach, ond ar y cyfan yn dangos lefel dda o gywirdeb.

e.e. atebion 3 marc.

Dw i'n cytuno gydag Iwan am wyliau gyda'r ysgol, mae'n ofnadwy a dydych chi ddim yn gallu gwneud beth dydych chi eisiau.

Dydw i ddim yn cytuno efo Rhiannon am gwyliau gyda'r teulu, dw i wrth fy modd yn mynd tramor efo dad a mam a brawd fi.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Yn rhan 1 – ddarllen y darn i gyd ac yna ystyried beth sy ei angen i ateb y cwestiwn.
- (b) Peidio copïo brawddegau cyfan gan obeithio cynnwys yr ateb.
- (c) Yn rhan 2 – ddewis rhywbeth maent yn gallu rhoi rhesymau am ei hoffi neu ddim ei hoffi o'u profiadau nhw eu hunain - yn hytrach na dewis testun lle nad oes ganddynt farn bersonol hawdd ei mynegi.

Cwestiwn 4: Uwch – Ysgrifennu 20 marc (cynnwys 10, mynegiant 10)

Y tesun mwyaf poblogaidd oedd 'Fy ardal i – lle gwych i bobl ifanc'. Llwyddodd y goreuon i roi'r pethau cadarnhaol a/neu'r pethau negyddol am eu hardaloedd ac felly cytuno neu anghytuno â'r gosodiad.

O ran cynnwys roedd disgwyl:

- (a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
- (b) barn bendant a synhwyrol
- (c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
- (ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- (d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion.

Gan y goreuon cafwyd ymdriniaeth hyderus, syniadau clir a diddorol a thriniaeth aeddfed ac uchelgeisiol o fewn yr amser oedd ar gael i ateb y cwestiwn hwn.

O ran mynegiant roedd disgwyl:

- (a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- (c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- (ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgynraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- (d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomaau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor
- (dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

Cafwyd gan y goreuon waith gwirioneddol dda o ystyried mai tua chwarter awr oedd ganddynt. Roedd y mynegiant yn ystwyth a'r adnoddau iaith ganddynt i gynhyrchu ymatebion diddorol gydag elfen dda iawn o gywirdeb.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:

- (a) Geisio codi safon cywirdeb eu cystrawennau sylfaenol gan osgoi camgymeriadau megis: yn fy marn i gwaith elusennol yn pwysig iawn..., achos elusennau fel comic relief..., aeth nhw..., mae e'n enw llawn..., roedd fi.
- (b) Sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn e.e. gyda Fy ardal i - lle gwych i bobl ifanc roedd rhaid canolbwyntio ar y pethau sy'n berthnasol i bobl ifanc.
- (c) Yn sicrhau eu bod yn cadw digon o amser ar gyfer gwneud cyfiawnder â'r cwestiwn olaf hwn.

Uned 2

Er na chafwyd problemau mor ddirfawr ag a gafwyd y llynedd, roedd perfformiadau'r gwahanol ganolfannau'n dal i amrywio'n fawr. Cafwyd rhai canolfannau'n cyflwyno gwaith ardderchog o'r safon uchaf. Mae'n amlwg fod athrawon y canolfannau hynny wedi mynd ati i astudio'r fanyleb a'r canllawiau'n drwyadl gan ddehongli'r gofyniadau yn y ffordd oedd fwyaf buddiol i'w disgyblion. Efallai iddynt hefyd astudio adroddiad 2011 a dysgu o'r cyngor a roddwyd am gamgymeriadau a wnaethpwyd gan rai o'r canolfannau a wnaeth y cwrs newydd y llynedd. Fodd bynnag, rhaid cyfaddef bod gwaith rhai canolfannau eraill yn siomedig iawn, fel petaent heb ymweld â gwefan CBAC o gwbl, na chwaith wedi mynychu unrhyw hyfforddiant mewn swydd, yn genedlaethol nag yn sirol. Yn wir, gwyddys am ambell ganolfan lle mae hynny'n hollol wir. Yn fwy gofidus, bu rhai canolfannau oedd yn cyflawni'r tasgau am yr ail dro yn euog o rai o'r un camgymeriadau ag a wnaethpwyd y llynedd, fel petaent heb ddarllen yr adroddiadau unigol a gawsant flwyddyn yn ôl. Diolch byth mai lleiafrif bychan oeddent. Yn anffodus, fodd bynnag, y lleiafrif yma sy'n cael y sylw gan y 'gwybodusion'. **Yn anffodus, anghofir am y gwaith ardderchog sy'n gael ei gyflawni gan lawer iawn o athrawon Cymraeg Ail Iaith – mae tueddiad i gyffredinolli a phardduo pawb yn yr un modd. Fel yr amlygir yn flynyddol gan y tasgau TGAU mae yna liaws o athrawon Cymraeg Ail Iaith brwdfrydig, cydwytbodol ac effeithiol tu hwnt sy'n cynhyrchu gwaith o'r safon uchaf heb dderbyn y gydnabyddiaeth sy'n haeddiannol iddynt.**

Fel yn flynyddol, cynigir yr adroddiad mewn ffordd adeiladol a chynghorol yn hytrach nag yn feiriadol. Gobeithir yn fawr y'i derbynir yn yr un modd.

Tasg 1 - Y Cyflwyniadau Unigol

Roedd rhaid i'r cyflwyniadau fod yn seiliedig ar un o'r testunau canlynol oedd wedi ymddangos ar wefan ddiogel CBAC ers Hydref 2010:

- Chwaraeon
- Sêr o Gymru
- Sinema / byd y ffilmiau
- Ardal
- Diwylliant Cymru
- Fi fy hunan
-

Yn anffodus, roedd lleiafrif o ganolfannau heb edrych ar wefan CBAC ac wedi defnyddio pynciau o'r Deunyddiau Enghreifftiol.

Y pynciau mwyaf poblogaidd oedd Chwaraeon, Sêr o Gymru, Sinema/byd y ffilmiau a Fi fy hunan. Fel y dywedwyd yn adroddiad y llynedd, efallai nad oedd dewis 'Fi fy hunan' yn un mor ddoeth ar gyfer yr ymgeiswyr gorau, yn rhannol am ei bod hi'n fwy anodd, er nad yn amhosibl, i adlewyrchu tystiolaeth o waith ymchwil yn y testun hwnnw. Mae'r testunau arall yn cynnig eu hunain i waith ymchwil, ac fe gafwyd enghreifftiau o gyflwyniadau ardderchog ynddynt oll.

Roedd siarad am 'Sêr o Gymru' yn boblogaidd iawn a chafwyd cyflwyniadau diddorol iawn, yn llawn tystiolaeth o waith ymchwil, am lawer iawn o sêr gyda Katherine Jenkins, Tom Jones, Charlotte Church, Ryan Giggs a Jamie Roberts, ymhlith eraill, yn boblogaidd iawn. Cofier mai 'Sêr o **Gymru**' yw'r testun. Cafwyd rhai ymgeiswyr yn siarad am sêr heb unrhyw gysylltiad â Chymru o gwbl. Cafwyd cyflwyniadau canmoladwy iawn am wahanol ardaloedd ac yn wir, roedd rhai ohonynt yn ardderchog. Dysgwyd llawer iawn am ardaloedd ledled Cymru ac roedd y ffeithiau diddorol am wahanol drefi ac ardaloedd yn adlewyrchu llawer iawn o waith ymchwil. Teimlid, yn aml, bod yr ymgeiswyr wedi mwynhau eu hunain wrth gyflawni'r dasg yma ac wedi dysgu llawer iawn am eu hardaloedd a'u treftadaeth ar yr un pryd. Un feirniadaeth fechan – o ystyried bod y cyflwyniadau wedi eu paratoi ymlaen llaw, rhyfedd oedd nodi bod rhai ymgeiswyr yn defnyddio'r enwau Saesneg am leoedd y mae iddynt enwau Cymraeg digon cyfarwydd fel Dinbych y Pysgod, Hwlfordd a Chasnewydd. Rhaid pwysleisio nad ymgeiswyr o'r ardaloedd hynny oedd y troseddwyd.

Cafwyd cyflwyniadau diddorol hefyd ar y testunau 'Chwaraeon' a'r 'Sinema/byd y ffilmiau' ac yma eto cafwyd tipyn o dystiolaeth o waith ymchwil wrth i'r ymgeiswyr gynnig ffeithiau lawer am au hoff chwaraeon, hoff chwaraewyr, hoff dimau, hoff ffilmiau neu hoff actorion. Fodd bynnag, cafwyd rhai cyflwyniadau ar yr amrywiol destunau heb unrhyw arwydd o waith ymchwil o gwbl er, efallai bod yr ymgeiswyr hynny wedi gwneud hynny wrth hel am wybodaeth a ffeithiau. Mewn rhai canolfannau cafwyd cyfraniadau effeithiol iawn gan rai athrawon pan fyddent yn gofyn rhywbeth fel: 'Nawrte Tom, rwy'ti wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil wrth baratoi'r cyflwyniad yma. Pa waith ymchwil wnest ti?' Roedd hyn yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn siarad am y gwaith ymchwil. Syniad da. Cafwyd ymatebion digon diddorol a doniol weithiau fel 'Bues i'n edrych ar y we ond does dim byd am Fochriw ar y we.' Nid bai'r ymgeisydd oedd hynny, a defnyddiwyd tystiolaeth o ffynonellau eraill yn ddigon effeithiol.

Fel y dywedwyd eisoes, mae'n anodd rhoi tystiolaeth o waith ymchwil wrth siarad am 'Fi fy hunan', ac ar y cyfan, ni chafwyd tystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewisodd yr opsiwn yma (roedd yna eithriadau). Fodd bynnag, nid yw'n amhosibl gwneud hynny. Mae gan ddiddordebau personol le amlwg mewn cyflwyniadau am yr hunan ac mae digon o gyfle i ddangos tystiolaeth o waith ymchwil yma. Gellir meddwl am ymgeiswyr yn cyfeirio at eu hoff fandiau, cantorion neu chwaraewyr rygbi fel Shane Williams ac ati. Gallent fod wedi rhoi mwy o fanylion amdanynt fyddai wedi rhoi tystiolaeth o waith ymchwil. Yn yr un modd, gellir cyfeirio at gefndir aelodau'r teulu – y tadcu wedi symud o Iwerddon i gael gwaith yn y Cymoedd, y fam wedi dod o India'r Gorllewin yn y chwedegau ac ati.

Fel y llynedd, y cyflwyniadau am 'Fi fy hunan' oedd y rhai mwyaf gwan, ond nid am y diffyg tystiolaeth o waith ymchwil yn unig. Ar y cyfan, tueddent i fod yn llai uchelgeisiol na'r gweddill – o ran cynnwys yn ogystal â mynegiant, ac at ei gilydd, nid oeddent yn teilyngu'r marciau a roddwyd iddynt gan rai canolfannau. Weithiau roedd y cynnwys a'r adnoddau ieithyddol yn rhy elfennol. Er enghraifft, weithiau, rhoddwyd marciau oedd yn cyfateb i raddau A neu A* i ymgeiswyr oedd ond yn ail-adrodd patrymau syml fel 'Enw fy mam ydy ...', 'Enw fy nhad ydy ...', 'Enw fy chwaer ydy' a lliw gwallt a llygaid y gwahanol aelodau ac ati. Fel y dywedwyd yn adroddiad 2011, disgwylir cynnwys mwy ymestynnol a phatrymau iaith llawer mwy uchelgeisiol ar y lefelau uchaf.

Roedd yr amseru, ar y cyfan, yn well eleni er bod nifer o gyflwyniadau yn dal i fod yn rhy fyr i gyfiawnhau marciau'r ganolfan. Cofier y disgwylir i ymgeiswyr o safon gradd G-D siarad am tua 2-3 munud a rhai o safon C-A* am tua 4-5 munud.

Unwaith eto, gwendid arall mewn rhai canolfannau oedd **gor-ddibyniant** ar y cof. Oherwydd natur y dasg, gyda'r holl waith ymchwil a pharatoi ymlaen llawn, mae'n anochel bod yr ymgeiswyr yn dibynnu tipyn ar gofio'r hyn maent wedi ei baratoi ond, fel yr ail adroddir mewn adroddiadau o flwyddyn i flwyddyn, weithiau roedd y naturioldeb yn mynd ar goll oherwydd y gor-baratoi. Ambell waith roedd y cam-ynganu, cam-bwysleisio a'r cam-seibiannu'n awgrymu'n gryf nad oedd pawb bob amser yn deall popeth roeddent yn ei ddweud (h.y. beth roeddent wedi ei ddysgu ar gof). Cofier y gellir defnyddio'r 30 gair o bwytiau bwled i nodi ffeithiau, ystadegau, dyddiadau ac ati. Cofier hefyd na ellir defnyddio'r pwyntiau bwled ar gyfer patrymau/strwythurau ieithyddol ac ati. Gwnaethpwyd hynny eleni gan rai canolfannau. Mae'r pwyntiau yma'n wir am y sgwrs sefyllfa hefyd, wrth gwrs. Cofier hefyd y dylid anfon y pwyntiau bwled a ddefnyddir gan aelodau'r sampl at y safonwyr allanol gyda'r gwaith cwrs. Ni wnaethpwyd hyn gan bob canolfan. Mae hyn yn wir am bob tasg.

Roedd safon y recordio'n dda, ar y cyfan. Mae'r cryno ddisgiau'n llawer mwy dibynadwy na'r hen gasetiau. Fodd bynnag, ceir problemau weithiau pan fod safonwyr allanol yn methu gwrandao ar ddisgiau oherwydd y modd y recordiwyd hwy. Bu rhaid gofyn am ail recordiad mewn sawl achos. Rhaid pledio ar i ganolfannau sicrhau ei bod hi'n bosib i wrando ar eu recordiadau ar beiriannau cyffredin.

Tasg 2 – Y Sgwrs sefyllfa (Tasg pâr / grŵp o 3)

Y Dasg Lafar

Cofier mai tasg pâr neu grŵp o 3 ydy hi. Eleni eto, mewn sawl canolfan, gan gynnwys un ganolfan oedd yn euog o'r un peth y llynedd, cafwyd grwpiau o 4 a 5 ymgeisydd. Disgwylir i barau siarad am rhwng 4 a 7 munud a grwpiau am rhwng 6 a 10 munud.

O ran tasgau, gosodwyd 5 opsiwn gan CBAC yn seiliedig ar y themâu 'Yr ardal', 'Gwaith elusenol', 'Ffasiwn / siopa', 'Cymru / Diwylliant Cymru' a 'Sêr Cymru'. Roedd hawl gan ganolfannau addasu'r tasgau neu gynnig tasgau gwahanol ar yr un themâu – **ond dim ond ar ôl derbyn caniatâd CBAC i wneud hynny**. Defnyddiwyd pob opsiwn eleni ond y rhai mwyaf poblogaidd oedd 'Yr ardal', 'Siopa', 'Cymru/Diwylliant Cymru' a 'Sêr Cymru'.

Fel gyda'r cyflwyniadau unigol, roedd safon y gwaith yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan – sgyrsiau ardderchog mewn rhai canolfannau, ond braidd yn siomedig mewn rhai eraill.

Fel y llynedd, cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn trin a thrafod yn hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ac yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol **yn ôl yr angen**. Cyflwynwyd cynigion y 2/3 aelod gyda brwdfrydedd ac arddeliad a thrafodwyd a mynegwyd barn aeddfed am rinweddau a diffygion y gwahanol gynigion. Cafwyd enghreifftiau gwych o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd 10 cam y gwahanol dasgau'n gelfydd iawn gan rai canolfannau gyda'r ymgeiswyr yn eu defnyddio'n synhwyrol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu cynigion ac hefyd, wrth holi eu partner/iaid am eu cynigion hwythau. Mewn geiriau eraill, fe'u defnyddiwyd fel math o restr wirio i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y dasg.

Gan y goreuon, defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf. Y nod, wrth gwrs, yw ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw. Yn anffodus, fodd bynnag, mewn rhai canolfannau, fel yn y cyflwyniadau, roedd y cynnwys a'r mynegiant braidd yn siomedig ac yn rhy elfennol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan.

Roedd yr amseru, ar y cyfan, yn ddigon boddhaol er bod nifer yn dal i fod yn rhy fyr, weithiau dim ond dwy neu dair munud gan grŵp o dri oedd ar farciau'n cyfateb i raddau A ac A* yn ôl eu canolfannau. Cyfeiriwyd at y problemau yma wrth sôn am y cyflwyniadau unigol.

Mae pob canolfan wedi derbyn adroddiadau unigol erbyn hyn, ond ail-adroddir yn gryno rhai pethau yma er mwyn ceisio sicrhau bod canolfannau eraill yn medru osgoi rhai o'r camgymeriadau a wnaethpwyd gan rai canolfannau, camgymeriadau a ellid fod wedi eu hosgoi o ddarllen adroddiad 2011. Ar y llaw arall, efallai y gall rhai canolfannau elwa o gyfnderau a syniadau canolfannau eraill.

Roedd Opsiwn 1 yn boblogaidd iawn – sef dewis cyfleusterau o'r ardal i ymddangos ar wefan y Cyngor. Mae'r dasg yma'n rhoi digon o gyfle i waith ymchwil a chafwyd sgysiau canmoladwy iawn mewn llawer o ganolfannau. Cafwyd y gwahanol aelodau'n cynnig eu syniadau'n frwdfrydig iawn, yn holi'n ddeheuig gan feirniadu (a chanmol) syniadau'r aelodau eraill, yn trin a thrafod yr holl gynigion gan fynegi barn, cytuno ac anghytuno'n effeithiol cyn dod i gytundeb ar ba gyfleustra y dylid ei gynnwys ar wefan y Cyngor.

Yn anffodus, cam-ddehonglwyd y dasg yma gan ambell ganolfan. Yn y canolfannau yma ni atebwyd gofynion y dasg gan y mwyafrif mawr o'r ymgeiswyr. Yn wir, mewn rhai o'r canolfannau yma, prin iawn y cafwyd sôn am wefan y Cyngor o gwbl. Roedd pawb yn siarad yn rhy gyffredinol am gyfleusterau'r ardal neu'n sôn am y diffyg cyfleusterau a beth hoffen nhw weld yn yr ardal yn lle ceisio 'gwerthu' un cyfleuster arbennig h.y. perswadio'r partner/iaid mai'r cyfleuster a gynigiwyd ganddo fe/ganddi hi ddylid ei gynnwys ar y wefan, boed yn glwb ieuencid, rinc sglefrio iâ, sinema, canolfan ferlota ac ati.

Cafwyd yr un cam-ddehongli yn Opsiwn 3 lle gofynir i aelodau'r pâr/grŵp gynnis canolfannau siopa gwahanol ar gyfer eu hymweliad i ddathlu diwedd yr arholiadau. Yn lle cyflwyno cynigion gwahanol a dod i benderfyniad ar un ganolfan benodol, yr hyn gafwyd weithiau oedd trafod ffrasiwn yn gyffredinol fel yn nhasg pâr/grŵp yr hen gwrs. Nid dyna'r bwriad o gwbl. Fodd bynnag, roedd yr Opsiwn yma, ar y cyfan, yn llwyddiannus iawn, ymhlith merched a bechgyn, wrth iddynt ddadlau pa ganolfannau y dylid ymweld a nhw – o Gaerfyrddin i Cheshire Oaks ger Caer, o Fangor i Fryste, o Gaerdydd i Fanceinion a llawer mwy.

Bu'r dasg am ddathlu Dydd Gŵyl Dewi (Opsiwn 4) yn ddigon poblogaidd eleni eto gyda'r ymgeiswyr yn cynnig amrywiaeth eang o syniadau ar gyfer dathlu'r ŵyl. Roedd trefnu trip yn boblogaidd, y rhan fwyaf i gyrchfannau hollol ddilys fel Tŷ Dewi, Canolfan y Mileniwm, Stadiwm y Mileniwm, Sain Ffagan, Castell Caernarfon ac ati gyda phwrpas arbennig i'r ymweliadau. Fodd bynnag, cafwyd rhai ymweliadau oedd yn hollol annilys o safbwynt dathlu Dydd Gŵyl Dewi fel trip siopa i Fanceinion, taith i Ffrainc a gwledydd tramor eraill yn ystod mis Mehefin neu yn ystod gwyliau'r haf heb unrhyw gyfeiriad at Fawrth y cyntaf na Dewi Sant. Roedd hi'n amlwg bod rhai o'r canolfannau yma wedi dewis y dasg o'r Deunyddiau Enghreifftiol yn hytrach nag oddi ar wefan ddiogel CBAC – trefnu trip (unrhyw drip) yn hytrach na threfnu digwyddiad arbennig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Ni ddefnyddiwyd Opsiwn 2 (y dasg am elusennau) gan lawer o ganolfannau ond fe'i cyflawnwyd yn effeithiol iawn gan y canolfannau hynny ddewisodd ei defnyddio.

Roedd Opsiwn 5 (Sêr o Gymru) yn boblogaidd iawn gan nifer o ymgeiswyr wrth iddynt gyflwyno eu cynigion unigol a thrin a thrafod cynigion aelodau eraill y pâr /grŵp. Yr un sêr, mwy neu lai, y siaradwyd amdanynt ag yn y cyflwyniadau unigol am 'Sêr o Gymru'. Cofier na ellir defnyddio'r un testun ar gyfer y ddwy dasg – y cyflwyniad unigol a'r sgwrs sefyllfa – fel y gwnaethpwyd mewn un neu ddwy ganolfan eto eleni.

Roedd tystiolaeth o waith ymchwil yn y mwyafrif o'r sgysiau ond ni chafwyd arwydd o waith ymchwil o gwbl gan rai ymgeiswyr. Fel yn y cyflwyniadau roedd ambell athro/athrawes yn gofyn y cwestiwn 'Pa waith ymchwil wnaethoch chi?' Does dim o'i le yn hynny. Yn wir, mae'n syniad y gellid ei gymeradwyo i rai canolfannau.

Mewn rhai canolfannau ni chafwyd cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr ar ddechrau'r gwahanol dasgau. Byddai'n help mawr petai'r ymgeiswyr yn cyflwyno eu hunain (pedwar neu bump ffaith) er mwyn i'r safonwr ymgyfarwyddo â'u lleisiau.

Er fod y gweinyddu'n drefnus ac yn daclus iawn yn y mwyafrif o ganolfannau, rhaid cyfeirio at rai ffaeiddau gweinyddol mewn canolfannau eraill:

- Sampl anghyflawn mewn rhai canolfannau.
- Cafwyd gormod o sampl mewn ambell ganolfan.
- Roedd enwau ymgeiswyr ar goll ar rai ffurflenni.
- Roedd marciau ar goll ar rai ffurflenni.
- Roedd enwau a/neu rifau'r ymgeiswyr ar goll ar rai crynoddisgiau.
- Nid oedd yr athrawon a/neu'r ymgeiswyr wedi llofnodi'r ffurflenni perthnasol bob tro.
- Ni ddanfonwyd y pwyntiau bwled gan rai canolfannau. Mae'n bwysig cofio na chaniateir strwythurau/patrymau iaith yn y pwyntiau bwled fel y gwnaethpwyd gan rai.

Y Dasg Ysgrifennu

Gosodwyd dwy dasg ysgrifenedig gan CBAC ar gyfer pob tasg lafar. Bwriedir y dasg gyntaf ar gyfer yr ymgeiswyr llai galluog a'r llall ar gyfer y goreuon er i'r goreuon, mewn rhai canolfannau, ddefnyddio'r dasg gyntaf mewn modd digon uchelgeisiol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd iddynt gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni chadwodd pob canolfan at dasgau gosodedig CBAC. Mae rhyddid iddynt eu newid ond rhaid cael caniatâd CBAC cyn gwneud hynny, fel gyda'r tasgau llafar. Y prif droseddwyd oedd y canolfannau hynny oedd wedi defnyddio tasgau allan o'r Deunyddiau Enghreifftiol yn hytrach nag oddi ar wefan CBAC.

Ar y cyfan roedd safon y gwaith ysgrifenedig yn foddhaol iawn, hyd yn oed mewn canolfannau lle cafwyd problemau gyda'r tasgau llafar.

Gyda'r goreuon, yr hyn gafwyd, mwy neu lai, oedd ail-adrodd neu addasu holl gynnwys y dasg lafar, a gwnaethpwyd hyn yn effeithiol iawn. Roedd cynnwys a safon yr iaith ysgrifenedig yn adleisio'r hyn gafwyd ar lafar ac yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.

O safbwynt cynnwys cafwyd amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn, cynllun ac adeiladwaith pendant, gwybodaeth cynhwysfawr gyda chyfraniadau estynedig, mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, tystiolaeth i gefnogi barn, naws ac awyrgylch pwrpasol ac ati.

Roedd y goreuon yma'n cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. Defnyddient gystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir ac roedd elfen gref o gywirdeb yn amlygu'r gwaith.

Wrth gwrs, yr hyn ddisgwylir ar unrhyw lefel yw bod safon y gwaith, y cynnwys a'r mynegiant, yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.

Mewn rhai achosion roedd y gwaith ysgrifenedig yn rhagori ar y llafar. Dro arall nid oedd cystal â'r llafar. Roedd hi'n amrywio o ganolfan i ganolfan.

Mewn ambell ganolfan defnyddiwyd ymgeiswyr gwahanol yn y dasg ysgrifennu i'r rhai safodd y dasg lafar. Nid dyna'r bwriad. Dylid cynnwys gwaith ysgrifenedig yr ymgeisydd/ymgeiswyr a dargedir yn y dasg lafar.

Fel y gellid disgwyl gydag arholiad newydd, bu camgymeriadau, cam-ddeall a cham-ddehongli eleni. Rhaid bod yn gadarnhaol, fodd bynnag. Dangoswyd cryn welliant ar berfformiadau'r llynedd a chafwyd ymdrechion arbennig o dda mewn llawer canolfan. Ar y cyfan, roedd safon y gwaith llafar ac ysgrifennu'n ganmoladwy iawn. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn symud ymlaen yn bositif, yn dileu'r camgymeriadau a'r cam-ddehongli ac yn adeiladu ar y cryfderau amlwg a arddangoswyd eleni mewn nifer fawr o ganolfannau.

UNED 3

YR ARHOLIAD LLAFAR / DARLLEN – Y Dasg Pâr/Grŵp.

Mae'r arholiad yma, mwy neu lai, yr un fath ag yr oedd yn yr hen gwrs, ond yn y cwrs newydd, darnau darllen yn hytrach na gosodiadau, lluniau a deunyddiau fideo yw'r unig symbyliadau.

Braf medru dweud i'r arholiad ar ei ffurf newydd fod yn llwyddiant. Yn y mwyafrif o achosion, defnyddiodd yr ymgeiswyr a'r athrawon y darnau darllen mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rhaid dangos dealltwriaeth o gynnwys y darnau, wrth gwrs, er mwyn sicrhau'r marc darllen, a gwnaethpwyd hyn yn ddigon boddhaol. Yn ogystal, fodd bynnag, defnyddiwyd cynnwys y darnau fel cymorth i'r ymgeiswyr i gynnal y sgysiau – yn rhoi gwybodaeth a syniadau iddynt y gellid eu defnyddio yn eu sgysiau ei hunain. Roedd hyn ym wir am ymgeiswyr ar y marciau isaf yn ogystal â'r goreuon. Roedd y darnau darllen yn rhoi geirfa a phatrymau brawddegol, yn ogystal â syniadau iddynt, rhywbeth nad oedd y lluniau a'r deunydd fideo'n llwyddo i'w wneud.

Roedd safon y gwaith yn ganmoladwy iawn yn y mwyafrif o ganolfannau. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn dangos dealltwriaeth lawn o'r darnau darllen symbylus, yn trin a thrafod y testunau dan sylw'n hyderus ac yn ymestynol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen.

Gan mai elfen newydd yr arholiad yma yw'r symbyliad, bydd pwyslais yr adroddiad ar y darnau darllen symbylus. Mae dau bwrpas i'r darnau darllen, wrth gwrs:

- rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall darnau darllen penodedig ar eu lefelau arbennig nhw – sef cam (i) y gwahanol dasgau. Dyma'r cam a ddefnyddir i roi marc 'darllen' yr ymgeisydd (sef y 10 allan o 50 marc yr arholiad – neu 5% o'r 25%).
- Rhoi symbyliad/au i'r ymgeiswyr i drin a thrafod y testun dan sylw gan ddilyn y canllawiau a roddir yng nghamau (ii), (iii) a (iv) yn ogystal â cham (i). Mae'r 4 cam yn cyfrannu tuag at y marc 'llafar' (sef 40 allan o 50 marc yr arholiad – neu 20% o'r 25%).

Yn yr Haen Sylfaenol mae:

darn darllen A yn targedu ymgeiswyr o safon graddau G/F;
darn darllen B yn targedu ymgeiswyr o safon graddau E/D;
darn darllen C yn targedu ymgeiswyr o safon gradd C;

Yn yr Haen Uwch mae:

darn darllen C yn targedu ymgeiswyr o safon gradd C;
darn darllen CH yn targedu ymgeiswyr o safon graddau B/A;
darn darllen D yn targedu ymgeiswyr o safon A*.

O safbwynt dangos dealltwriaeth, roedd teimlad ymhlith rhai athrawon bod gormod o gynnwys yn y darnau darllen symbylus. Ar y llaw arall, teimlai llawer o athrawon bod maint y cynnwys wedi bod o fantais mawr wrth i'r ymgeiswyr geisio cyflawni gofynion y dasg 'lafar' ac, wrth gwrs, mae llawer mwy o farciau am yr elfen lafar. Yn sicr, cafwyd rhai trafodaethau oedd yn hir iawn o gymharu â'r hyn gafwyd yn y gorffennol, a'r prif rheswm am hyn oedd bod rhai ymgeiswyr yn ceisio dangos dealltwriaeth lawn o 3 darn darllen symbylus. I geisio lleihau'r baich rhoddir yr argymhelliad canlynol:

- O safbwynt y marc 'darllen', dylai ymgeiswyr sy'n targedu:
- gradd A* ddangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen D a chyffwrdd â darnau CH a
 - C;
 - gradd A ddangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen CH â chyffwrdd â darn C;
 - gradd B ddangos dealltwriaeth eithaf cyflawn o ddarn darllen CH â chyffwrdd â darn
 - C;
 - gradd C ddangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen C;
 - gradd D ddangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;
 - gradd E ddangos dealltwriaeth eithaf cyflawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;
 - gradd F ddangos dealltwriaeth gyflawn o ddarn darllen A;
 - gradd F ddangos dealltwriaeth o rai pwyntiau yn narn darllen A.

Mae 'cyffwrdd â' yn golygu dethol un neu ddau bwynt o'r darnau hynny. Wrth gwrs, bydd llawer o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o ddarnau 'ychwanegol' drwy ddefnyddio'u cynnwys ar gyfer y dasg lafar.

Cyflawnwyd cam (i) – dangos dealltwriaeth – yn dda gan y mwyafrif. Roedd y goreuon, wrth gwrs, yn llwyddo i wneud hynny heb unrhyw gymorth o gwbl gan yr athrawon. Roedd angen mwy o help ar y gweiniaid ac yn aml, roedd cyfraniadau'r athrawon yn allweddol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ennill marc 'darllen' teilwng. Roedd cwestiynau syml fel 'Beth mae Lyn yn ei wneud yn ei amser hamdden?' neu 'Wyt ti'n cytuno â Siôn?' yn ddigon effeithiol. Fodd bynnag, roedd arferiad anffodus gan rai athrawon i gyflwyno gwybodaeth o'r darnau darllen yn hytrach na rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth, ac ennill marciau 'darllen', drwy wneud hynny. Er enghraifft, cafwyd athrawon yn dweud pethau fel 'Mae Sung Ma'n dweud bod gormod o chwaraeon ar y teledu. Wyt ti'n cytuno?'. Roedd y 'cytuno', wrth gwrs, yn rhan bwysig o'r elfen 'lafar' ond ni roddwyd cyfle i'r ymgeisydd 'ddangos dealltwriaeth' o'r darn hwnnw o'r deunydd symbylus am i'r athro wneud hynny drosto.

Roedd un athro'n euog o lawer gwaeth – roedd e'n cyfieithu popeth wrth fynd ymlaen. Cafwyd pethau'n debyg i:

'Mae Mark yn meddwl bod ysmegu'n dwp. Mark thinks that smoking is stupid. Wyt ti'n cytuno? Do you agree?' neu 'Mae Harri'n byw mewn tref fach ar lan y môr. Harri lives in a small town at the seaside..... Ble rwyd ti'n byw? Where do you live?' Roedd hyn yn digwydd dro ar ôl tro ar ôl tro. Doedd yr ymgeiswyr ddim yn cael y cyfle i ennill marciau 'darllen' drwy ddangos dealltwriaeth o'r darnau darllen o gwbl.

Dyna ddigon am yr elfen 'Darllen'. Rhaid dweud rhyw ychydig am y 'Llafar'. Mae llawer o'r pwyntiau a nodwyd am Sgwrs Sefyllfa Uned 2 yn wir am yr arholiad yma hefyd.

Roedd y safon yn dda iawn ymhlith y goreuon a llwyddodd y gweiniaid i gynnal sgysiau mwy sylweddol nag arfer, yn bennaf am fod cynnwys y darnau darllen symbylus yn help iddynt, ac weithiau'n rhoi syniadau i'r athrawon hefyd. Fel yn yr hen gwrs, trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd cynnwys y darnau darllen symbylus yn effeithiol dros ben a chafwyd cyfeiriadau 'nôl atynt drwy gydol llawer iawn o'r trafodaethau. Roedd hyn yn cadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi deall y darnau darllen symbylus ond hefyd, roedd yn ychwanegu at naturioldeb y sgysiau ac yn profi fod llawer o ymgeiswyr yn medru siarad yn naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn llawer o ganolfannau, roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ail-adrodd y bregeth flynyddol, mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy'r 4 cam. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.

Fel gyda'r hen gwrs, braf oedd gweld rhai canolfannau'n defnyddio tasgau gwahanol ar gyfer pob un o'r parau/grwpiau (yn y sylfaenol a'r uwch), felly'n defnyddio 5 testun ar gyfer 5 pâr/grŵp.

Mae rhai canolfannau, wrth gwrs, yn defnyddio'r un dasg ar gyfer pawb sy'n awgrymu weithiau eu bod wedi canolbwyntio ar destun y dasg honno. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd sgysiau pob grŵp yn dilyn yr un patrwm, gan ddefnyddio'r un eirfa, yr un ymadroddion a.y.y.b oedd yn awgrymu gor-baratoi. Yr unig wahaniaeth weithiau oedd bod y goreuon yn ynganu, yn pwysleisio ac yn seibannu'n well. Weithiau teimlid eu bod wedi dysgu (neu geisio dysgu) sgript ac roedd hi'n amlwg weithiau nad oeddent yn deall popeth roeddent yn ei ddweud bob amser. Rhyfedd weithiau oedd gweld canolfannau gyda chyn lleied a thua 25 ymgeisydd yn defnyddio tasgau a osodwyd ar gyfer y 3 dydd. Pam?

Fel yn y gorffennol, dilynwyd y cyfarwyddiadau gweinyddol gan y mwyafrif o ganolfannau gyda phopeth yn drefnus ac yn daclus iawn. Fodd bynnag, cafwyd yr eithriadau blynyddol – yr un canolfannau, mwy neu lai, o flwyddyn i flwyddyn, a'r un ffaeleddau yn ogystal sef, ymhlith pethau eraill:

- cyflwyno samplau'n hwyr;
- cyflwyno samplau anghyflawn;
- heb roddi'r manylion perthnasol ar gloriau'r crynoddisgiau;
- heb roddi enwau a/neu rifau'r ymgeiswyr ar y ffurflenni;
- heb roddi'r marciau cywir ar y ffurflenni;
- heb gyflwyno ymgeiswyr y pâr /grŵp ar ddechrau'r recordiad na rhoi eu rhifau arholiad ychwaith.

Gweler hefyd bwyntiau a nodwyd yn adroddiad Uned 2.

Danfonir adroddiadau unigol yn flynyddol erbyn hyn ond mae'n ymddangos bod yna ambell ganolfan sy'n eu hanwybyddu'n gyfangwbl ac felly'n euog o'r un ffaeleddau o flwyddyn i flwyddyn. Gydag arholiad newydd mae yna gyfle i ddechrau o'r newydd. Gobeithio y bydd y lleiafrif hynny o ganolfannau fu'n anwybyddu pob cyngor a chanllaw yn y gorffennol yn troi tudalen newydd ac yn dysgu o'u ffaeleddau – er lles eu disgyblion a'u canolfannau.

I grynhoi, bu'r arholiad ar ei newydd gwedd yn llwyddiannus iawn ar y cyfan. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled, cydwybodol ac effeithiol. Yn sicr, nid yw ymdrechion diflino'r mwyafrif o athrawon Cymraeg Ail Iaith yn derbyn y clod haeddiannol mor aml ag y dylent.

Uned 4

Hon yw'r flwyddyn gyntaf i ymgeiswyr sefyll yr arholiad hwn, sy'n asesu gallu'r ymgeiswyr i Ddarllen ac Ysgrifennu. Papur 1 awr yw hwn ac mae'r uned hon ac uned 3 yn rhoi cymhwyster Cwrs Llawn i'r rhai sy'n llwyddiannus. Mae'r pwysoli yn yr uned hon yn wahanol i Uned 1. Yn uned 1 mae'r pwysoli 60: 40 o blaid y Darllen a'r pwysoli yn yr uned hon 60: 40 o blaid ysgrifennu. Felly, yn naturiol mae mwy o bwyslais ar greadigrwydd a chywirdeb yn y gwaith ysgrifennu.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb da i'r tasgau hyn o Gyd-destun B, yn yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch. Mae gwaith y goreuon yn ganmoladwy ac yn sicr yn adlewyrchu'r amser ychwanegol a gaiff y rhain o fewn y cwricwlwm.

Cwestiwn 1: Darllen - 10 marc (8 marc darllen, 2 farc ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Y dasg yma ydy darllen e-bost ac yna rhoi gwybodaeth benodol o'r e-bost mewn poster ar gyfer ei arddangos. Mae'r cyd-destun yn gyfarwydd i ymgeiswyr sylfaenol ac yn aml diffyg canolbwyntio oedd yn gyfrifol am gamgymeriadau megis rhoi Mehefin yn lle Gorffennaf ar gyfer y dyddiad.

- (ii) Dyfarnwyd 2 farc am ymateb yn ddealladwy a synhwyrol i'r elfen hon.

Rhodddwyd 1 marc am *Ydych chi'n mynd neu ddim yn mynd* ac roedd atebion megis 'dw i'n mynd' neu 'dw i ddim yn mynd' yn dderbyniol.

Roedd 1 marc am yr ail ran a gwobrwywyd atebion megis 'achos mae'n dda' neu 'achos mae'n ddiflas'.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Ddarllen y darnau'n ofalus er mwyn osgoi camgymeriadau fel rhoi Mehefin yn lle Gorffennaf ar gyfer y dyddiad.
- (b) Ymarfer ysgrifennu e-byst byr er mwyn cyfleu gwybodaeth benodol yn ddealladwy a chywir. Dyma enghraifft dda am 2 farc, 'Dydw i ddim yn hoffi yn mynd i'r parti achos rydw i'n mynd i'r sinema gyda ffrindiau.'

Cwestiwn 2: Ysgrifennu - 15 marc (8 marc cynnwys, 7 marc iaith)

Y dasg oedd ysgrifennu'n bersonol mewn brawddegau llawn ar destunau cyfarwydd ar gyfer gwefan yr ysgol.

Cafwyd ymateb da iawn i'r dasg hon ac roedd hi'n amlwg bod ymgeiswyr yn yr uned hon yn gallu ysgrifennu'n bersonol yn ddiddorol gan arddangos elfen gref o gywirdeb cystrawennol.

Dyfarnwyd 8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy dros y tri darn a 7 marc am gystrawennau sy'n cael eu defnyddio'n gywir yn yr ymatebion. Gyda mynegiant rhoddir 4 marc am y defnydd o bedair cystrawen wahanol yn gywir a 3 marc am un gystrawen yn y Gorffennol/Amherffaith er mwyn ymateb i'r adran olaf – *Pethau wnes i'n ddiweddar*.

Dyma enghreifftiau o gystrawennau a ddefnyddiwyd yn gywir gan ganran uchel o'r ymgeiswyr:

Dw i'n, rydw i'n ...
dw i ddim yn, dydw i ddim yn..
mae'n gas gyda fi, rydw i'n dwli ar, rydw i wrth fy modd
fy hoff ... ydy..., ydy fy hoff...
fy ffrindiau ydy, Siân a Mair ydy fy ffrindiau
mae e'n, mae hi'n, maen nhw'n
dydy e ddim yn , dydy hi ddim yn ..
mae gen i, mae Gen i, Mae gyda fi..
mae'n well gen i / gyda fi

Yn yr amser gorffennol cafwyd cystrawennau megis:

Ddoe es i i siopa.

Roeddwn i'n chwarae rygbi.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Sicrhau eu bod wedi ymateb i bob adran gan dalu sylw i'r cwestiwn e.e. Rhaglenni teledu dw i ddim yn hoffi. Collodd nifer farciau gan ysgrifennu am y rhaglenni roeddent yn hoffi.
- (b) Gweiniaid – ymarfer ysgrifennu'n syml yn y Gorffennol e.e. es i, gwelais i, roeddwn i'n ayyb.
- (c) Ymarfer defnyddio'r gystrawen – ydy – Siân ydy, Rhian a Jon ydy fy ffrindiau.

Cwestiwn 3: Darllen 20 marc (16 marc darllen, 4 marc deall ac ymateb yn ysgrifenedig)

Darllen dau ddyddiadur ar themâu cyfarwydd i bobl ifanc oedd y dasg a dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasgau llenwi grid. Yn yr ail ran ysgrifennu brawddegau i gymharu eu profiadau nhw a Jonathan a Sue.

Cafwyd ymatebion llwyddiannus i'r rhan gyntaf a'r ymgeiswyr yn perfformio yn ôl y disgwyl. Yr adrannau ar yr amgylchedd oedd yn creu problemau i'r canolig a'r gweiniaid yn yr Haen Sylfaenol.

Mae'r ail ran yn achosi llawer mwy o broblemau. Mae rhaid i'r cynnwys fod yn gywir cyn y gellir dyfarnu marc am gywirdeb yr ymateb.

Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn anghywir.

Fel Jonathan dydw i ddim yn hoffi y gwersi Hanes. = 0 marc
Dydw i ddim yn hoffi reidio beic adref o'r ysgol (fel Sue) = 0

Atebion 2 farc yr un:

Dw i'n hoffi chwarae rygbi a mae Jonathan yn hoffi chwarae rygbi.

Mae Sue yn astudio Shakespeare yn yr ysgol fel fi.

Dw i ddim yn hoffi bwyta salad yn wahanol i Sue.

Mae'n gas gen i ysmegu fel Jonathan a Sue.

Dyfarnwyd 1 marc am frawddegau oedd ddim yn gwbl gywir ond ag elfen gref o gywirdeb. e.e. Dw astudio Shakespeare fel Sue.

Dw i mynd sinema a mae Jonathan mynd sinema.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Sicrhau nad ydynt yn cymysgu rhwng Jonathan a Sue.
- (b) Ddefnyddio'r wybodaeth yn y cwestiwn i ddod o hyd i'r adran gywir yn y dyddiadur.
- (c) Gofio bod y wybodaeth i ateb y cwestiwn yn aml mewn mwy nag un lle yn y dyddiadur.
- (ch) Ymarfer digon ar ail ran y dasg ac efallai dysgu ymadroddion fel: yn wahanol i Sue, fel Jonathan.., yn debyg i ...

Cwestiwn 4: Ysgrifennu 30 marc (15 cynnwys, 15 mynegiant)

Ysgrifennu llythyr at ddisgyblion yn Nhrelew oedd y dasg. Roedd y gofynion wedi eu graddoli yn ôl anhawster.

- (a) Ysgrifennu am y cartref a gofyn cwestiwn / cwestiynau (syml ar gyfer y gweiniaid) am eu cartref nhw. 3 marc cynnwys
- (b) Ysgrifennu am a gofyn cwestiynau am yr ysgol. 5 marc cynnwys
- (c) Ysgrifennu yn y Gorffennol am benwythnos gawson nhw'n ddiweddar. 7 marc iaith.

Gan fod y cwestiwn wedi ei raddoli gwelwyd fod y gweiniaid a'r canolig yn llwyddo i ymateb yn ddiddorol ac eithaf cynhwysfawr i'r ddwy ran gyntaf.

Cafwyd gwaith ardderchog gan ymgeiswyr yr haen uwch a llawer o gwestiynau gwirioneddol ddiddorol yn y ddwy ran gyntaf a rhesymau ardderchog pam roedd y penwythnos yn arbennig. Roedd y rhan olaf yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng y canolig a'r da yn yr haen uwch.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Canolig a gwan – ddefnyddio'r rwbric i roi strwythur i'w llythyr e.e. ysgrifennu llythyr syml gan ddefnyddio cystrawennau cyfarwydd e.e. dw i'n byw yn gyda. Mae'r ysgol yn
- (b) Yr Haen Uwch – ymarfer ysgrifennu yn yr amser Gorffennol gan ganolbwyntio ar gael cytundeb rhwng person y ferf a'r terfyniad e.e. camgymeriadau cyson a gafwyd oedd *aeth fi, prynais e*.
- (c) Yr Haen Uwch – amseru'r arholiad yn synhwyrol a pheidio treulio mwy na rhyw 15 munud ar y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 3: Haen Uwch – Darllen – 20 marc

(16 darllen, 4 ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig)

Darllen erthygl digon heriol ac estynedig oedd y dasg a chwblhau 4 tasg.

Rhan (a) 4 marc - rhoi pedwar ateb pwynt bwled am fywyd lolo Williams cyn iddo fynd i'r coleg. Llwyddodd canran uchel iawn o'r ymgeiswyr i wneud hyn yn gynhwysfawr. Ffeithiau syml fel – byw wrth Lyn Fyrnwy, hoffi edrych ar natur a.y.y.b. oedd ei angen.

Rhan (b) 4 marc. Ysgrifennu ar ffurf pwyntiau bwled am ddau beth oedd lolo Williams wedi ei wneud ar y radio a'r teledu.

Eto ar y cyfan cafwyd ymatebion synhwyrol, cywir megis – wedi gwneud cyfres am fywyd yr arth frown yn Rwsia.

Rhan (c) 8 marc. Ysgrifennu 4 peth ar ffurf pwyntiau bwled mae lolo, y teulu a phobl y pentref yn wneud i helpu'r amgylchedd.

Y goreuon llwyddodd i ysgrifennu 4 pwynt yn gywir, ond llwyddodd cyfran dda i ddod o hyd i'r pethau amlwg megis *'yn ail gylchu (popeth)'*.

Rhan (ch) 4 marc. Fel yn yr adrannau ymateb yn ysgrifenedig eraill roedd rhaid i'r cynnwys adlewyrchu'n gywir y syniadau yn y darn. Roedd angen dweud a oeddech yn cytuno neu anghytuno â syniadau lolo Williams am felinau gwynt a pheilonau a rhoi rheswm / rhesymau. Gwobrwywyd 2 farc am frawddeg oedd ag elfen dda iawn o gywirdeb ac 1 marc am frawddeg ag elfen dda o gywirdeb.

Brawddegau 2 farc.

Rydw i'n cytuno dydy melinau gwynt ddim yn effeithiol a hefyd mae nhw yn gwneud llawer o sŵn.

Dydw i ddim yn cytuno efo lolo Williams am melinau gwynt achos mae rhaid ni cael trydan a mae melinau gwynt yn lân.

Brawddegau 1 marc.

Dw i ddim yn cytuno am peilonau achos peilonau dros y wlad i gyd. Mae lolo cywir mae eisiau protest am peilonau achos nhw yn hyll iawn.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Sicrhau eu bod yn cynnwys y nifer cywir o ymatebion i bob cwestiwn.
- (b) Wneud y defnydd gorau o'u hamser trwy ysgrifennu ymatebion byr pwyntiau bwled, lle mae'n dderbyniol.
- (c) Ddangos dealltwriaeth trwy ddioli'r pwyntiau ar gyfer ateb y cwestiwn yn hytrach na chopio sawl llinell a gobeithio cynnwys yr ateb cywir.
- (ch) Ymarfer rhan (ch) gan sicrhau eu bod yn dweud a ydynt yn cytuno neu anghytuno a'r rhesymau o'r darn.
- (d) Roi rhesymau personol am gytuno ac anghytuno a pheidio copïo'r rhesymau yn y darn.

Cwestiwn 4: Haen Uwch – Ysgrifennu 30 marc (cynnwys 15, mynegiant 15)

Ymateb i unrhyw un o dri chwestiwn digon heriol oedd y cwestiwn olaf hwn. Cawsom ymdriniaeth ardderchog gan yr ymgeiswyr A*. Roedd ganddynt syniadau aeddfed a barn glir a phendant. Llwyddodd yr ymgeiswyr hyn i ysgrifennu tua thudalen a hanner o erthygl sy'n syndod o ystyried mai hwn oedd y pedwerydd cwestiwn i'w gyflawni mewn awr.

O ran mynegiant gwobrwywyd:

- (a) Y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- (b) Y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- (c) Geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- (ch) Cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- (d) Ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomaau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
- (dd) Ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

Gan y goreuon cafwyd mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion a llwyddiannus iawn. Elfen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.

I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (a) Amseru'r papur yn briodol gan gofio bod eisiau cadw o leiaf 15 munud i wneud cyfiawnhad â'r cwestiwn hwn.
- (b) Godi safon cywirdeb eu gwaith gan osgoi camgymeriadau fel: mae rhaid i ni stopiwch, dw i'n meddwl bod dylai, rydw i'n meddwl ei bod technoleg yn ...



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk